

Y Prif Ymchwilyr:

Yr Athro Elizabeth Draper
PICANet

Department of Health Sciences,
College of Medicine, Biological Sciences and
Psychology,
University of Leicester, Centre for Medicine,
University Road, Leicester, LE1 7RH

0116 252 5468

Y Dr Roger Parslow
PICANet

Division of Epidemiology & Biostatistics
School of Medicine
University of Leeds
8.49 Worsley Building
Leeds, LS2 9JT

0113 343 4856

www.picanet.org.uk

Fersiwn 6.3 Rhagfyr 2016

©2016 Prifysgolion Leeds a Chaerlŷr

PICANet 

Rhwydwaith Awdit Gofal Dwys Pediatrig



Taflen wybodaeth i deuluoedd a
gofalwyr plant sy'n derbyn gofal dwys
pediatrig.

Os hoffech wybod mwy am
PICANet gallwch:

Siarad â'r Doctoriaid a'r Nyrsys

E-bostio picanet@leeds.ac.uk

Mynd i'n gwefan
www.picanet.org.uk

Neu

Ffonio'n Nyrs Ymchwil,
Caroline Lamming ar

0116 252 5414

Neu ysgrifennwch at Caroline:
cr14@leicester.ac.uk

Neu drwy'r post:

PICANet
Department of Health Sciences,
College of Medicine, Biological Sciences and
Psychology,
University of Leicester, Centre for Medicine,
University Road, Leicester, LE1 7RH

Beth yw gwaith PICANet?

Mae PICANet yn casglu gwybodaeth am bob plentyn sy'n cael ei dderbyn i wasanaeth gofal dwys pediatrig (i blant). Does dim angen i chi wneud dim byd er mwyn beth i'ch plentyn gael ei gynnwys.

Pam mae PICANet yn bwysig?

Mae'r wybodaeth a gasglwn ar gyfer PICANet yn helpu i ddod o hyd i'r ffyrdd gorau i drin plant sy'n sâl iawn a gofalu amdany'n nhw, er mwyn i wasanaethau gofal dwys gael eu cynllunio a'u darparu'n well yn y dyfodol.

Sut mae PICANet yn cael ei ariannu?

Mae'n cael ei ariannu gan yr Awdit Clinigol Cenedlaethol a'r Rhaglen Canlyniadau Cleifion sy'n cael eu gweinyddu gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, y Bartneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd (HQIP) ar gyfer Lloegr, NHS Lothian – Adran Ysbytai Prifysgol, Ysbyty Brenhinol Belfast i Blant Sâl, Swyddfa Genedlaethol Awdit Clinigol Iwerddon (NOCA) ac HCA International.

Sut mae'r wybodaeth yn cael ei chasglu?

Bydd aelod o staff yn cofnodi manylion anhwylder neu salwch eich plentyn o'r wybodaeth yn ei nodiadau meddygol. Caiff yr wybodaeth ei rhoi ar gyfrifiadur wedyn a'i hanfon at Brifysgol Leeds a'i chadw'n ddiogel ar gyfrifiadur yno.

Pa wybodaeth sydd ei hangen?

Mae PICANet yn casglu'r un wybodaeth yn union am bob plentyn sy'n cael gofal mewn uned gofal dwys pediatrig a chan y gwasanaethau cludiant gofal dwys arbenigol i blant.

Bydd manylion personol, fel enw a dyddiad geni, yn ein helpu i ddilyn cynnydd eich plentyn os caiff ei symud i uned gofal dwys pediatrig arall. Bydd gwybodaeth am ofal, triniaeth ac anhwylder eich plentyn hefyd yn cael ei chasglu. Gallwn ddefnyddio'ch cod post i helpu i gynllunio gwasanaethau gofal dwys pediatrig y dyfodol yn eich ardal.

At beth fydd yr wybodaeth yn cael ei ddefnyddio?

Rydym yn defnyddio'r wybodaeth i'n helpu i ysgrifennu adroddiadau ac i benderfynu pa wybodaeth arall am ofal dwys i blant y mae ei hangen i helpu ysbytai i gynllunio ar gyfer y dyfodol. Gan ein bod yn casglu llawer o wybodaeth, rydym yn gallu edrych ar yr hyn sy'n digwydd ledled y wlad ac nid yn yr ysbyty yma'n unig.

Rydym hefyd wedi cysylltu â chronfeydd data eraill, er mwyn gweld sut gyflwr fydd ar iechyd eich plentyn ar ôl gadael yr uned gofal dwys.

Fydd yr wybodaeth yn ddiogel?

Mae'r holl wybodaeth yn cael ei hanfon mewn modd diogel iawn a'i storio'n gyfrinachol ar brif gyfrifiadur sy'n cael ei gadw mewn ystafell

ddiogel. Does neb yn cael gweld yr wybodaeth oni bai mai dyna'u swydd nhw.

Does dim modd i'ch plentyn gael ei adnabod yn unrhyw un o'n hadroddiadau

Beth rydyn ni wedi'i ganfod hyd yma?

Yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rydym wedi dangos bod dros 19,000 o blant yn cael eu derbyn i wasanaeth gofal pediatrig y Deyrnas Unedig ac Iwerddon bob blwyddyn. Mae bron hanner y plant hyn yn llai nag un oed.

Mae'r math hwn o wybodaeth yn fuddiol, am ei bod yn helpu'r ysbytai a'r bobl sy'n cynllunio gwasanaethau iechyd i wybod beth i'w ddisgwyl a pharatoi'n well ar ei gyfer.

Oes rhaid cynnwys fy mhleintyn i?

Os nad ydych yn dymuno i wybodaeth a fyddai'n gadael i'ch plentyn gael ei adnabod gael ei chynnwys yn PICANet, dywedwch wrth y nyrs neu'r doctor sy'n gofalu am eich plentyn. Fel arall, cysylltwch â PICANet dros y ffôn neu'r ebost (manyion dros y tudalen) a byddwn yn sicrhau bod data personol eich plentyn yn cael ei dynnu o'r gronfa ddata. Rydych yn rhydd i dynnu'n ôl unrhyw bryd ac ni fydd eich penderfyniad i dynnu'n ôl yn newid y gofal a gaiff eich plentyn yma, neu mewn unrhyw ysbyty arall.